**ATODIAD A**

Cyfarwyddwyr Addysg Cynghorau

Sir a Bwrdeistrefi Sirol Cymru

Parc Cathays / Cathays Park

Caerdydd / Cardiff

CF10 3NQ

Eich cyf / Your ref

Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date 30 Ionawr 2001

Annwyl Gyfaill

**SETLIAD REFENIW LLYWODRAETH LEOL 2001-02:**

**Y GOBLYGIADAU POSIBL I GYLLIDEBAU ADDYSG**

Mae Edwina Hart, Ysgrifennydd Cyllid a Chymunedau'r Cynulliad, wedi cyhoeddi heddiw fanylion setliad refeniw terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2001-02. Caiff ei drafod gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Chwefror.

Mae'r setliad yn golygu cynnydd o 5.9% yng ngwariant llywodraeth leol, ar sail y rhagdybiaethau y mae'r Cynulliad wedi'u gwneud ar gyfer lefelau treth y cyngor.

Os bydd gwariant ar addysg yn cynyddu i'r un graddau bras â'r cynnydd cyffredinol hwn, dylai esgor ar £80 miliwn yn ychwanegol ar gyfer addysg yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yn sylweddoli bod beichiau newydd penodol ar addysg ac y mae

wedi cynnwys arian o fewn y setliad refeniw ar gyfer trothwyon cyflog athrawon (£12.845 miliwn) ac ar gyfer ymddeoliadau cynnar i brifathrawon (£2.05m). Mae yna hefyd £7.923m o ganlyniad i drosglwyddo cyfran o'r arian ar gyfer y grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Plant Bach i'r setliad.

Os bydd awdurdodau lleol yn dewis rhoi cynnydd o 5.9% i addysg a defnyddio'r arian ar gyfer beichiau newydd penodol, cyfanswm y cynnydd yn y gwariant ar addysg trwy'r setliad refeniw fydd £103 miliwn.

Rwy'n ysgrifennu atoch i esbonio ichi'r elfennau y mae'r £103 miliwn wedi'i wneud ohonynt ac i ddweud wrthych am eich cyfrifoldebau o ran paratoi adroddiadau ar eich cyllidebau; gwneir hynny gan gofio mai mater i awdurdodau lleol yw penderfynu ar eu gwariant ar addysg a'u holl wasanaethau eraill.

**Y Cynnydd Cyffredinol i Lywodraeth Leol**

Os bydd awdurdodau lleol yn dewis neilltuo'r £80m o'u cynnydd cyffredinol i addysg, bydd hynny'n talu am gost y cynnydd mewn cyflogau a phrisiau, yn darparu arian cyfatebol ar gyfer y cynnydd yn rhaglen Grantiau Gwasanaethau Addysg a Hyfforddiant (GEST) ac yn galluogi awdurdodau i wella'r gwasanaeth ac ysgwyddo'r beichiau newydd.

Ar sail amcangyfrifon Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn adroddiad yr is-grwp gwariant, casglwn y gallai'r cynnydd mewn cyflogau a phrisiau (heb gynnwys taliadau trothwy) gyfrif am ryw £48m. Bydd union delerau cytundeb cyflogau athrawon 2001 yn effeithio ar yr asesiad terfynol.

Mae rhaglen GEST wedi cynyddu £6.817m (gros) o £51.183m i £58m. Mae'r cynnydd yn golygu y bydd angen £2.727m yn fwy o arian cyfatebol o fewn y setliad.

Bydd rhyw £28.5m o'r cynnydd ar gael i ysgwyddo beichiau newydd a gwella'r hyn a ddarperir gan ysgolion.

**Ailstrwythuro Cyflogau Athrawon - £12.845m**

Neilltuwyd £14.03 miliwn yn setliad refeniw 2000-01 ar gyfer ailstrwythuro cyflogau athrawon. Roedd hyn yn cynnwys £13.7m ar gyfer ailstrwythuro cyffredinol (yn bennaf i awdurdodau lleol allu talu cost athrawon dosbarth sy'n croesi'r trothwy i gyfradd uwch); a £0.330m i chwyddo cyflogau Athrawon Carlam/Sgiliau Uwch a chost darparu athrawon cyflenwi yn ystod hyfforddiant (nid oedd eisiau hyn yn 2000-01 wedi'r cyfan). Mae £12.845m pellach wedi'i gynnwys yn setliad 2001-02 gan wneud cyfanswm o bron £27m ar gyfer ailstrwythuro cyflogau athrawon – unwaith eto yn bennaf i dalu costau'r athrawon sy'n croesi'r trothwy, sef y rhai ddylai gael blaenoriaeth i'r arian hwn. Bydd yr arian hwn yn ychwanegol at gyllidebau dirprwyedig ac ar gael i ysgolion cyn gynted ag y gwyddys lefel y galw cyffredinol a'r galw ymhlith ysgolion unigol.

Er i'r arian penodol ychwanegol yn 2000-01 ar gyfer costau'r Grwp Arweinyddiaeth gael ei roi i ysgolion trwy'r Adroddiad Grant Arbennig a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 19 Rhagfyr 2000 (gweler y manylion yn fy llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr at Brif Weithredwyr gyda chopïau at Brif Swyddogion Cyllid a Chyfarwyddwyr Addysg), dylech nodi mai arian untro oedd hwn ac ni fydd arian ychwanegol yn 2001-02. Dylech nodi hefyd nad oes arian penodol wedi'i neilltuo yn 2001-02 at ddiben ailstrwythuro cyflogau athrawon heblaw'r £27m a drafodwyd uchod. I osgoi unrhyw ddryswch, cynghorir ysgolion i sicrhau darpariaeth ar gyfer holl gostau ailstrwythuro cyflogau (gan gynnwys costau'r Grwp Arweinyddiaeth ac Athrawon Sgiliau Uwch ond ac eithrio costau trothwy) wrth bennu'u cyllidebau ar gyfer 2001-02.

Bydd arian ychwanegol ar gael i unrhyw awdurdod os bydd eu cyfran o'r £14m yn y flwyddyn ariannol hon a'r £27m yn y flwyddyn ariannol nesaf yn rhy fach i dalu am y costau trothwy. Cewch lythyr yn y dyfodol agos i esbonio beth ddylai awdurdodau sydd yn y sefyllfa honno ei wneud.

**Ymddeoliad cynnar i brifathrawon - £2.05m**

Diben yr arian hwn yw galluogi awdurdodau addysg lleol i ganiatau nifer gyfyngedig o brifathrawon i ymddeol yn gynnar. Mae gan brifathrawon yr hawl otomatig i ymddeol yn gynnar eisoes ar sail pensiwn sydd wedi'i leihau gan actiwari. Mater i'r awdurdod addysg lleol yw gwneud taliad i Gynllun Pensiwn yr Athrawon i chwyddo pensiwn wedi'i leihau gan actiwari.

Bydd y £2.05m ychwanegol hwn ar gael trwy'r grant cynnal refeniw (RSG) ar gyfer 2001-02 yn unig a gellid ei ddefnyddio i helpu gyda thaliadau o'r fath. Penderfynwyd ei roi oherwydd y newidiadau mawr sydd wedi digwydd o ran rheoli perfformiad a materion cysylltiedig a byddai'n helpu awdurdodau addysg lleol i ganiatau i brifathrawon sy'n rhoi gwasanaeth boddhaol ond nad ydynt yn gallu ysgwyddo'r newidiadau mawr hyn i ymddeol yn gynnar a chael pensiwn wedi'i chwyddo.

Byddwn yn ysgrifennu yn unigol at bob awdurdod addysg lleol yn rhoi cyngor iddynt ar sut y gallent drefnu ymddeoliadau cynnar, ar ôl trafod â'r WLGA. I fod yn gymwys, rhagwelir y bydd gofyn i brifathro fod yn rhoi gwasanaeth boddhaol ond yn teimlo na all ymdopi â'r newidiadau mawr sy'n digwydd ym myd addysg. Ni fyddai prifathrawon ysgolion ag iddynt wendidau difrifol neu sy'n methu yn gymwys.

Trosglwyddo Cyfran o Arian Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Plant Bach - £7.923m

Fel rhan o'r strategaeth ymadael y cytunwyd arni gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae £7.923m yn cael ei drosglwyddo o'r rhaglen grant penodol i setliad refeniw llywodraeth leol (ni ddylid ei ddrysu â'r £7.9m a ddarparwyd yn 2000-01 fel grant arbennig at gostau

arweinyddiaeth a mesurau gwella). Caiff y gweddill, £5.659m, ei drosglwyddo yn 2002-03, ac wedi hynny, ni fydd rhagor o grantiau penodol ar gael. Bydd gofyn i awdurdodau gofio am eu hymrwymiad cyfreithiol i sicrhau nad oes mwy na 30 o blant mewn dosbarthiadau plant bach wrth bennu eu fformwla ariannu ar gyfer dosbarthiadau plant bach ar gyfer 2001-02 ac wedi hynny.

Pwysleisir bod y darpariaethau hyn ar gyfer ad-drefnu trefniadau ymddeol prifathrawon a lleihau maint dosbarthiadau yn ychwanegol at y cynnydd cyffredinol yng ngwariant llywodraeth leol.

**Pennu cyllidebau**

Wrth benderfynu ar lefel y gyllideb addysg ar gyfer 2001-02, dylai pob awdurdod edrych yn ofalus ar anghenion y gwasanaeth addysg a'i ysgolion.

Caiff penderfyniadau cyllidol pob awdurdod eu dadansoddi gan ddefnyddio'r ffurflenni Cyfrif Refeniw (RA) a ffurflenni cyllid Adran 52 a anfonir i'r Cynulliad. Caiff adroddiad ei roi i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn yr haf. Trafodir cynnwys yr adroddiad hwnnw gyda'r WLGA i sicrhau ei fod yn rhoi darlun teg; ac i sicrhau bod yr adroddiad yn dechrau canolbwyntio ar ganlyniadau yn unol â gwaith ar gytundebau polisi. Gwahoddir pob awdurdod i gynnig sylwadau ar ei ffigurau cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Bydd gofyn i'r adroddiad gydnabod effaith newid y fformwla asesu gwariant safonol; a'r ffaith nad yw trosglwyddo arian y grant lleihau maint dosbarthiadau plant bach yn cynrychioli pwer gwario newydd i'r awdurdodau, er ei fod yn golygu cynnydd yn yr arian yn y setliad.

**£20 o Arian Ychwanegol ar gyfer 2001-02**

Mae £20m ychwanegol o arian refeniw ar gael ar gyfer 2001-02 sy'n ychwanegol at y setliad refeniw. Caiff ei roi i awdurdodau lleol trwy Adroddiad Grant Arbennig ac fe fydd wedi'i glustnodi. Bwriedir iddo gael ei ddefnyddio i helpu lleihau maint dosbarthiadau plant iau, i helpu i wella safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 ac i helpu ysgolion sy'n tanberfformio. Rydym wrthi'n trafod y trefniadau manwl gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a byddaf yn ysgrifennu atoch ar y mater hwn yn fuan.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at eich Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid ac at Colin Jones WLGA.

Mae copïau'n cael eu hanfon hefyd at undebau'r athrawon ac at Lywodraethwyr Cymru, er eu gwybodaeth.

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y llythyr hwn, cysylltwch â fi neu Michael Jones neu 029 20 826057.

Yn gywir

**MRS E A TAYLOR**

Pennaeth yr Is-adran Rheoli Ysgolion